Hawdd ei ddeall

# Ein cynllun i helpu rhagor o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru

## Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn

Rhagfyr 2017



Fersiwn hawdd ei ddeall o Ddiweddariadau Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-2021, adroddiad Rhagfyr 2017 Cyngor Celfyddydau Cymru

**Ebrill 2018**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'rgeiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn ysgrifen **glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy rhai o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn maen nhw'n cael eu dangos mewn ysgrifen glas normal. Os ydych yn gweld geiriau mewn ysgrifen glas normal gallwch weld beth maen nhw'n feddwl yn y rhestr o **eiriau anodd** ar dudalen 18.

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd, CF10 5AL

Ffôn: 0845 8734 900

SMS: 07797800504
Dim ond talu am y pris arferol am neges

E-bost: gwybodaeth@celf.cymru

Gwefan: www.celf.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma....................................................2**

**Cyflwyniad...........................................................................................4**

**Amcan cydraddoldeb 1 ...........................................................................6**

**Amcan cydraddoldeb 2 ...........................................................................8**

**Amcan cydraddoldeb 3 ..........................................................................12**

**Amcan cydraddoldeb 4 ..........................................................................13**

**Amcan cydraddoldeb 5 ..........................................................................15**

**Geiriau anodd.......................................................................................18**

# Cyflwyniad




Fe fyddwn yn ysgrifennu adroddiadau bob 6 mis i ddweud wrthych chi sut hwyl rydyn ni'n gael gyda'n cynllun. Dyma'r un cyntaf.



Mae helpu rhagor o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yn un o'r pethau pwysicaf y gallwn ni ei wneud.

Rydyn ni'n gwneud yn dda hyd yn hyn. Rydyn ni wedi bod yn:



- gweithio gyda phobl hŷn nad ydyn nhw fel arfer yn cymryd rhan yn y celfyddydau. Rydyn ni'n gwneud hynny gyda **cARTrefu Cymru** ac **Age Cymru**.



- cefnogi artistiaid sydd yn anabl neu yn **BAME**.



Mae **BAME** yn meddwl person Du, person Asiaidd neu berson o **leiafrif ethnig.**

Person o **leiafrif ethnig** ydy rhywun sydd yn byw mewn man lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl arall yn perthyn i wahanol hil.



Ond mae gennym ni lawer o waith i'w wneud eto. Does yna ddim llawer o bobl anabl yn gwneud gwaith cyflogedig yn y celfyddydau. Does dim digon o bobl BAME yn gweithio yn y celfyddydau yng Nghaerdydd.



Rhaid inni gael rhagor o bobl anabl a phobl BAME yn y prif swyddi.




Mae'r adroddiad yma yn dweud wrthych chi sut hwyl rydyn ni'n gael ar ein **hamcanion cydraddoldeb**.

> Mae ein **hamcanion cydraddoldeb** yn bethau pwysig y mae'n rhaid inni eu gwneud er mwyn gwneud y celfyddydau yn fwy teg i bawb.

# Amcan cydraddoldeb 1

## Gwneud yn siŵr bod pobl yn y celfyddydau yn gwybod am gydraddoldeb



Rydyn ni wedi siarad gyda llawer o bobl am gydraddoldeb ac fe fyddwn ni'n dal i siarad.



Yn ein cynhadledd ddiwethaf un or prif bynciau oedd cydraddoldeb ac **amrywiaeth**. Fe wnaethon ni edrych ar y ffordd orau o gynnwys pawb.



**Amrywiaeth** ydy gwerthfawrogi pobl wahanol sydd â gwahanol ffyrdd o fyw a diwylliant gwahanol.



Fe wnaethon ni dalu am 2 ffilm:



- y celfyddydau y mae pobl hŷn a phobl ifanc yn cymryd rhan ynddyn nhw
- gweithio gyda'r celfyddydau mewn cymunedau gyda phobl sydd â bywyd caled.




Ar ôl y gynhadledd fe wnaethon ni roi’r ffilmiau yma ar Facebook ac YouTube.



Fe wnaethon ni redeg rhywfaint o hyfforddiant yn Gymraeg. Fe wnaethon ni helpu cyrff i weld faint o Gymraeg maen nhw’n ei defnyddio nawr. A sut y maen nhw’n gallu defnyddio mwy o Gymraeg.




Fe fyddwn ni yn diweddaru ein dogfen **Lle Cyfartal**. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod pobl y celfyddydau yn gwybod amdani. Ac yn gwybod am ein **Canllaw Cydraddoldeb**. Maen nhw’n rhoi gwybodaeth am gydraddoldeb yn y celfyddydau.




Fe wnaethon ni dalu am lyfryn cyfarwyddiadau i helpu lleoedd i gynnwys pobl sydd ddim yn clywed yn dda iawn. Mae e ar gael ar ein gwefan.




Rydyn ni’n gweithio ar wefan newydd. Rydyn ni eisiau iddi fod mor **hygyrch** â phosibl.



Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu ei ddefnyddio.

# Amcan cydraddoldeb 2



## Cael gwahanol fathau o bobl yn gweithio yn y celfyddydau

Rydyn ni nawr yn hysbysebu ein swyddi yn:

- **Stonewall Cymru** ar gyfer pobl **lesbiaidd**, **hoyw** a **deurywiol**







mae **lesbiaidd** yn meddwl menyw sydd yn hoffi ac yn caru menywod eraill

mae dyn **hoyw** yn meddwl dyn sydd yn hoffi ac yn caru dynion eraill

mae **deurywiol** yn meddwl person sydd yn hoffi ac yn caru dynion a menywod.

- mae **Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Cymru** ar gyfer pobl BAME

- **cymdeithas y Tsieinïaidd yng Nghymru**.




Fe wnaethon ni ofyn i bobl oedd yn gwneud cais am swydd os ydyn nhw'n gweld eu hunain yn anabl.



Fe wnaethon ni ddarganfod bod yna wahanol ffyrdd o ddweud os ydych chi'n anabl ai peidio.



Efallai nad ydy rhai pobl yn gweld eu hunain yn anabl ond mae'r ddeddf Cydraddoldeb yn dweud eu bod nhw. Nawr fe fyddwn ni'n gofyn os ydy'r ddeddf Cydraddoldeb yn eu gweld nhw'n anabl.



Fe fyddwn yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i'n staff y flwyddyn yma. Rydyn ni'n chwilio am y bobl orau i wneud yr hyfforddiant inni.



Mae **BBC Cymru** ac **S4C** hefyd yn ceisio cael mwy o staff amrywiol. Rydyn ni wedi ymuno mewn grŵp gyda nhw i chwilio am y ffordd orau o wneud hyn.

## Rhaglen camau creadigol



Mae ein rhaglen camau creadigol yn cefnogi cyrff celfyddydau anabledd a BAME.  Fe wnaethon ni helpu:

- **Taking Flight Theatre Company** i ddysgu sut i wneud yn siŵr bob pobl yn gwybod amdanyn nhw. A hefyd sut i chwilio am fusnesau i'w cefnogi nhw.



- **Fio**. Maen nhw'n defnyddio'r celfyddydau i weithio gyda phobl ifanc BAME a'r rhai sydd yn cael bywyd anodd. Fe wnaethon ni eu helpu nhw i ddeall beth i'w wneud i gael grant mawr.

- **Age Cymru** i barhau i ddefnyddio'r celfyddydau i weithio gyda phobl hŷn.

## Rhaglen Heb Ffiniau

Mae'r **Rhaglen Heb Ffiniau** yn cefnogi artistiaid anabl a chyrff celfyddydau yn y DU.



Fe wnaeth y rhaglen yma roi arian ar gyfer perfformio 2 ddrama yng Nghymru. Fe gafodd 5 o bobl arian hefyd i fynd ar hyfforddiant.




Rhaid i grwpiau sydd yn gofyn inni am arian ddangos eu cynllun cydraddoldeb inni nawr. Fe wnaethon ni ddweud, dim cynllun dim arian.



Mae gan pob grŵp gynlluniau cydraddoldeb nawr. Rydyn ni'n eu helpu i weld pa mor dda ydyn nhw ac i weld sut maen nhw'n gallu gwneud yn well.



Fe fyddwn yn parhau i wneud hyn ac yn rhoi hyfforddiant iddyn nhw ar gydraddoldeb.




Fe fyddwn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ar arian y Loteri.




Mae ein **canllaw cydraddoleb** a **lle cyfartal** yn rhoi llawer o wybodaeth am wneud gwaith da ar gydraddoldeb. Fe fyddwn ni'n talu am fwy o bethau i helpu'r celfyddydau gyda chydraddoleb.

# Amcan cydraddoldeb 3

## Gwneud yn siŵr bod gan pob math o bobl rôl arwain




Rhaid i bob corff sydd yn gofyn inni am grant ddangos eu cynllun cydraddoldeb inni nawr. Rydyn ni'n disgwyl i'r cynllun ddweud sut y byddan nhw'n cael mwy o amrywiaeth ar eu grwpiau rheoli.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'r grwpiau ar hyn.  Fe fyddwn ni'n rhoi hyfforddiant iddyn nhw.




Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am ein **canllaw cydraddoldeb** a **lle cyfartal.**

# Amcan cydraddoldeb 4

## Cael gwahanol fathau o bobl i fwynhau'r celfyddydau




**Hynt** ydy ein cerdyn mynediad anabledd.  Mae e'n gwneud pethau'n haws i bobl sydd angen rhywfaint o gefnogaeth i fynd i ddigwyddiadau celfyddydau.




Mae gan 9,500 o bobl gerdyn **hynt**. Mae pobl gyda cherdyn **hynt** yn prynnu mwy a mwy o docynnau bob blwyddyn. Fe fyddwn yn parhau i weld pa mor dda mae'r cerdyn **hynt** yn gweithio.



Rydyn ni'n rhoi arian i helpu prosiectau celfyddydau i deithio o amgylch Cymru. Rhaid iddyn nhw ddefnyddio lleoedd hygyrch ar gyfer hyn.  Fe fyddwn yn edrych i weld pa mor dda mae hyn yn gweithio.




Mae gennym ni arian i'w roi helpu lleoedd i fod yn fwy hygyrch. Wnaeth yna ddim llawer o leoedd ofyn am yr arian yma. Fe fyddwn yn gofyn pam.

Bob blwyddyn mae cwmnïau celfyddydau o'r DU yn mynd i ddigwyddiad arbennig yn yr Eidal. Y flwyddyn yma fe wnaeth **Shape Arts** edrych ar pa mor hygyrch oedd eu lleoliad.



Roedden nhw mewn lle hen a hardd iawn. Roedd hi'n hawdd i bobl mewn cadeiriau olwyn ddefnyddio'r lle. Ond mae yna bethau eraill y maen nhw'n gallu eu gwneud i wneud y lle yn fwy hygyrch. Fe fyddwn yn clywed beth sydd yn cael ei wneud yn nes ymlaen.

# Amcan cydraddoldeb 5

## Cael gwahanol fathau o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau



Mae gennym ni 2 brosiect sydd yn gweithio gyda phobl o wahanol oeds:



- Gweithio gyda phobl hŷn sydd yn byw mewn cartrefi preswyl ac sydd ddim yn cymryd rhan yn y celfyddydau fel arfer. Mae hyn gyda **cARTrefu Cymru** ac **Age Cymru**.



- Dysgu creadigol drwy'r gweithiau celfyddydau gydag ysgolion.  Mae'r ysgolion mewn lleoedd lle mae pobl yn dlawd. Neu mae ganddyn nhw broblemau eraill sydd efallai yn effeithio ar ddysgu'r plant.



Mae bron i hanner yr ysgolion arbennig yng Nghymru yn cael arian ar gyfer dysgu creadigol. Rydyn ni eisiau gweithio gyda'r holl ysgolion arbennig yng Nghymru.



Fe wnaethon ni ddysgu pa waith sydd yn digwydd ar hyn o bryd gyda'r celfyddydau ac iechyd.



Fe wnaethon ni ddarganfod 207 o brosiectau celfyddydau. Mae bron i hanner ohonyn nhw yn canolbwyntio ar oedran pobl – pobl hŷn a phobl ifanc. Yna mae'r gwaith gyda phobl anabl yn digwydd.



Mae hyn yn meddwl bod bron i hanner y prosiectau yn gweithio gyda'r holl bobl eraill yn y **grwpiau gwarchodedig**.




**Grwpiau gwarchodedig** ydy grwpiau o bobl mae'r gyfraith yn eu gwarchod rhag cael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft, person sydd yn cael eu trin yn annheg oherwydd eu bod nhw'n ifanc.



Gyda'r wybodaeth yma rydyn ni'n ysgrifennu cynllun ar gyfer y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru.



Rydyn ni'n edrych ar brosiect gyda'r gymuned Sipsi, Roma a Theithio yng Nghymru.



Rydyn ni'n weithio gyda grwpiau eraill i ddod â phobl at ei gilydd o'r holl gelfyddydau.



Rydyn ni'n edrych ar y ffyrdd gorau o weithio gyda phobl hŷn er mwyn iddyn nhw fod yn iach ac yn hapus.

# Geiriau anodd

### Amcanion cydraddoldeb

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn bethau pwysig y mae'n rhaid inni eu gwneud er mwyn gwneud y celfyddydau yn fwy teg i bawb.

### Amrywiaeth

Amrywiaeth ydy gwerthfawrogi pobl wahanol sydd â gwahanol ffyrdd o fyw a diwylliant gwahanol.

### BAME

Mae BAME yn meddwl person Du, person Asiaidd neu berson o leiafrif ethnig.

### Deurywiol

Mae deurywiol yn meddwl person sydd yn hoffi ac yn caru dynion a menywod.

### Grwpiau gwarchodedig

Grwpiau gwarchodedig ydy grwpiau o bobl mae'r gyfraith yn eu gwarchod rhag cael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft, person sydd yn cael eu trin yn annheg oherwydd eu bod nhw'n ifanc.

### Hoyw

Mae dyn hoyw yn meddwl dyn sydd yn hoffi ac yn caru dynion eraill.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn gallu ei ddefnyddio.

### Leiafrif ethnig

Person o leiafrif ethnig ydy rhywun sydd yn byw mewn man lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl arall yn perthyn i wahanol hil.

### Lesbiaidd

Mae lesbiaidd yn meddwl menyw sydd yn hoffi ac yn caru menywod eraill.